



Canllawiau ar Weithrediadau Gofal a Thrwsio a Chyfarpar Diogelu Personol

Mae'r Canllawiau hyn yn nodi'r gofynion gweithredol sylfaenol ar gyfer staff rheng flaen Gofal a Thrwsio a'u defnydd o Gyfarpar Diogelu Personol.

Cynnwys

- ▶ Dibyn y Canllawiau - *Gofal a Thrwsio yn gweithio i gefnogi pobl hŷn sy'n agored i niwed, y GIG a gofal cymdeithasol*
- ▶ Cwmpas y Canllawiau - *cadw ein staff a'n cleientiaid yn ddiogel*
- ▶ Cyfarpar Diogelu Personol Safonol
- ▶ Cyfarpar Diogelu Personol Ychwanegol Dewisol
- ▶ Arferion gweithredol penodol
- ▶ Dyddiadau allweddol
- ▶ Canllawiau Gofal a Thrwsio ychwanegol

Diben y Canllawiau

Gofal a Thrwsio yn gweithio i gefnogi pobl hŷn sy'n agored i niwed, y GIG a Gofal Cymdeithasol

1. Fel gwasanaeth a ariennir gan y cyhoedd, gan weithio ledled Cymru ar draws y sectorau tai, iechyd a gofal cymdeithasol, mae Gofal a Thrwsio yn parhau i ddarparu cymorth hanfodol i bobl hŷn sy'n agored i niwed yn y gymuned. Mewn llawer o amgylchiadau, rydym yn dal i ymweld â chartrefi ein cleientiaid, a gweithio ynddyn nhw, i helpu'r GIG, Gofal Cymdeithasol a phobl hŷn sy'n agored i niwed i ymdopi â'r pandemig Coronafeirws.
2. Mae Care & Repair Cymru yn gweithio gydag Asiantaethau Gofal a Thrwsio, yn datblygu arferion gwaith diogelu a'u cefnogi i ariannu a chaffael Cyfarpar Diogelu Personol priodol.

Tasgmyn a chrefftwyr.

3. Er mwyn helpu i gynyddu nifer y gwelyau ysbyty ar gyfer derbyniadau COVID-19, newidiodd y GIG yng Nghymru i ffordd o weithio newydd "rhyddhau i asesu", lle mae'r pwyslais ar ryddhau cleifion yn gyflym, ac yna darparu cymorth o amgylch yr unigolyn ar ôl iddo gael ei ryddhau. Mae llawer o bobl hŷn angen cymorth yn eu cartrefi eu hunain cyn a/neu ar ôl eu rhyddhau o'r ysbyty, ac yn hanfodol i hyn mae cyflawni mân waith, addasiadau, a gwaith arall sy'n helpu i'w cadw'n annibynnol, yn ddiogel ac yn iach yn eu cartref eu hunain. Mae Gofal a Thrwsio yn rhan o'r ymateb i hyn, ac mae ein tasgmyn a'n crefftwyr yn dal i fod mewn

cartrefi a chymunedau yn helpu i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn ddiogel.

4. Rydym hefyd yn parhau i roi cymorth i bobl hŷn a allai wynebu problemau mewn argyfwng, fel eu gwres a'u dŵr poeth yn torri, nwy yn gollwng, problemau plymio neu bryderon diogelwch trydanol. Ar gyfer y rhain a gwaith brys hanfodol arall, rydym yn dal yma, yn cyflawni, neu'n galluogi ac yn hwyluso gwaith hanfodol i bobl hŷn heb unman arall i droi.

Gweithwyr Achos Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach (H2HH)

5. Mae ein Gweithwyr Achos H2HH yn gweithio gydag ysbytai a chleifion i alluogi rhyddhau cleifion yn gynt ac yn fwy diogel, gan gysylltu â phobl a chrefftwyr Gofal a Thrwsio i sicrhau bod gwaith hanfodol yn cael ei gwblhau yng nghartrefi cleientiaid.
6. Yn dibynnu ar leoliadau, mae ein Gweithwyr Achos H2HH yn gweithio naill ai o bell i gyflawni'r rôl hon, gan ddefnyddio cysylltiadau maen nhw wedi'u sefydlu mewn ysbytai gyda staff y GIG ac eraill mewn canolfannau a thimau rhyddhau, neu mewn rhai achosion drwy fynychu cyfarfodydd cynllunio rhyddhau mewn ysbytai, ynghyd â staff iechyd a chymunedol eraill sy'n gyfrifol am gynllunio rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Gweithwyr Achos, Swyddogion Technegol a staff prosiect (Ymdopi'n Well a Phrosiect Attic)

7. Mae pobl hŷn a grwpiau agored i niwed eraill sy'n aros gartref, yn hunan-ynysu oherwydd symptomau a gwarchod eu hunain oherwydd eu bod yn grŵp "mewn perygl" angen ein help i gadw mewn cysylltiad a chael cymorth gyda hanfodion fel siopa bwyd, meddyginiaeth ar bresgripsiwn, neu beidio teimlo hyd yn oed yn fwy unig ac ynysig. Mae llawer o'n Gweithwyr Achos ledled Cymru yn darparu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol, neu'n eu cyfeirio at eraill, yn ogystal â gweithio o bell ar ein busnes arferol o dderbyn ymholiadau newydd, gwneud asesiadau o'r angen am dai, a sicrhau bod ein cleientiaid yn hawlio eu holl hawliau.
8. O Orffennaf 2020, rydym yn cynyddu faint o waith rydym yn ei wneud yng nghartrefi pobl a thrwy ymweliadau wyneb yn wyneb. Mae canllawiau ar wahân ar gyfer Gweithwyr Achos a Swyddogion Technegol Gofal a Thrwsio wedi cael eu cynhyrchu er mwyn sicrhau ein bod ni fel sefydliad ledled Cymru yn gweithio'n gyson ac yn ddiogel pan fyddwn yn ymweld â phobl yn eu cartrefi i'w helpu gyda gwaith hanfodol. Mae'r diffiniad o waith hanfodol yn cynnwys y sefyllfaoedd a ddisgrifiwyd uchod - rhyddhau o'r ysbyty, atgyweiriadau brys a hanfodol, ond yn ogystal o fis Gorffennaf, mae'n cynnwys gwaith ataliol megis addasu tai, atal cwmpadau, neu waith sy'n cefnogi iechyd a lles fel gwresogi ac inswleiddio eiddo gwell.

Cwmpas y Canllawiau

Cadw ein staff a'n cleientiaid yn ddiogel

9. Er mwyn cefnogi ein timau i ymgymryd â'u gwaith yn ddiogel, ac i roi cysur a thawelwch meddwl i'n cleientiaid nad ydym yn eu rhoi mewn perygl, rydym wedi datblygu'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y tabl isod am Gyfarpar Diogelu Personol priodol i'w ddefnyddio mewn ystod o wahanol sefyllfaoedd.

10. Mae ein canllawiau yn cynnwys:

a. **Safon ofynnol Cyfarpar Diogelu Personol**, gan roi sylw i:

- i. **ganllawiau ar y cyd** a gyhoeddwyd ar 2 Ebrill 2020 gan nifer o sefydliadau gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), Public Health England (PHE) a'r GIG. Mae'r canllawiau [Iechyd Cyhoeddus Cymru/y GIG](#) hyn yn cwmpasu'r gofal neu'r ymweliad uniongyrchol ag unigolion yn eu cartrefi eu hunain.
- ii. cyhoeddwyd **nodyn cyngor atodol** gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 20 Ebrill: [Lleoliadau tai, iechyd, gofal cymdeithasol a chymorth: Enghreifftiau i lywio gweithredu'r canllawiau Atal a Rheoli Heintiau diweddaraf – COVID 19](#)

Mae Gofal a Thrwsio wedi mabwysiadu'r safonau gofynnol yn y tablau canlynol fel rhai sy'n berthnasol i bob ymweliad ag unigolion yn eu cartrefi eu hunain lle mae achos wedi'i gadarnhau neu lle mae achos posibl neu ar gyfer unigolion sydd yn y grŵp hynod agored i niwed, neu lle mae unrhyw aelod o'r cartref yn y grŵp hynod agored i niwed sy'n gwarchod eu hunain.

b. **Cyfarpar Diogelu Personol ychwanegol/amgen dewisol** - mae'n bosibl y bydd pob asiantaeth Gofal a Thrwsio unigol yn dymuno ystyried yn lleol, a gallant fabwysiadu'n lleol y cyfan neu rywfaent yn unig o'r Cyfarpar Diogelu Personol ychwanegol.

11. Yn ogystal â 10a. a) a/neu 10b. uchod, mae ein Canllawiau Gofal a Thrwsio yn cynnwys yr arferion gweithredol canlynol, sy'n rhoi sylw i'r canllawiau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'r GIG y cyfeirir ato uchod, ac yr ymhelaethir arnynt islaw'r tablau:

- **Asesu risg a brysbennu** yn ymwneud â'r eiddo a chleientiaid rydym yn darparu gwasanaethau ar gyfer
- **Cadw pellter cymdeithasol** cywir
- Arferion **hylendid cyffredinol a glanweithdra** da
- Prosesau **glanhau offer** cywir,
- **Hyfforddiant**
- **Arfer da mewn gwaredu Cyfarpar Diogelu Personol**

12. Gan ddefnyddio'r arferion hyn, mae Gofal a Thrwsio yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw pawb yn ddiogel ac atal lledaeniad coronafeirws.

Cyfarpar Diogelu Personol Safonol		Menig tafladwy	Ffedog blastig dafladwy	Masg llawfeddygol	Masg llawfeddygol gwrth-hylif (Math IIR)	Amddiffynnwr llygaid/wyneb ¹
Lleoliad	Cyd-destun					
Cartref y cleient ei hun - mewnol	Gweithio y tu mewn i eiddo lle mae gan unrhyw aelod o'r cartref symptomau (h.y. yn achos posibl neu wedi'i gadarnhau) ²	✓ defnydd sengl	✓ defnydd sengl	✗	✓ defnydd sengl	✓ defnydd sengl
Cartref y cleient ei hun - mewnol	Gweithio y tu mewn i eiddo lle mae'r cleient mewn grŵp hynod agored i niwed neu lle mae aelod o'r cartref yn y grŵp hynod agored i	✓ defnydd sengl	✗	✓ defnydd sengl	✗	✗

¹Gall hwn fod yn amddiffynnwr wyneb/llygaid defnydd sengl neu i'w ddefnyddio dro ar ôl tro a gallai fod yn fisur wyneb llawn neu'n gogls

²Cwestiynau asesu risg blaenorol i'w gofyn i bennu, yn seiliedig ar asesiad o symptomau'n cael eu dangos.



	niwed sy'n gwarchod eu hunain ¹					
--	--	--	--	--	--	--

Cyfarpar Diogelu Personol Ychwanegol Dewisol		Menig tafladwy	Ffedog blastig Dafladwy, gyda gorchuddi on llewys tafladwy neu orchuddwi sgoedd tafladwy	Gorchuddi on traed tafladwy	Masg llawfeddyg ol	Masg llawfeddyg ol gwrth-hylif (Math IIR)	Amddiffyn nwr llygaid/wyneb ²
Lleoliad	Cyd-destun						
Cartref y cleient ei hun - mewnol	Gweithio y tu mewn i eiddo lle mae gan unrhyw aelod o'r cartref symptomau (h.y. yn achos posibl neu wedi'i gadarnhau) ³	✓ defnydd sengl	✓ defnydd sengl	✓ defnydd sengl	✗	✓ defnydd sengl	✓ defnydd sengl
Cartref y cleient ei hun - mewnol	Gweithio y tu mewn i eiddo lle mae'r cleient mewn grŵp hynod agored i niwed neu lle mae	✓	✓	✓	✓	✗	✓

¹Gellir gweld diffiniadau o warchod a grŵp hynod agored i niwed yng nghanllawiau'r llywodraeth

²all hwn fod yn amddiffynnwr wyneb/llygaid defnydd sengl neu i'w ddefnyddio dro ar ôl tro a gallai fod yn fisur wyneb llawn neu'n gogls

³Cwestiynau asesu risg blaenorol i'w gofyn i bennu, yn seiliedig ar asesiad o symptomau'n cael eu dangos



	aelod o'r cartref yn y grŵp hynod agored i niwed sy'n gwarchod eu hunain ¹ neu lle mae statws y cleient yn anhysbys	defnydd sengl	defnydd sengl	defnydd sengl	defnydd sengl		defnydd sengl
Tu allan i gartrefi cleientiaid	Gwneud gwaith allanol, neu ddanfon siopa neu feddyginiaeth i'r drws ffrynt	✓ defnydd sengl	✗	✗	✓ defnydd sengl	✗	✗

¹Gellir gweld diffiniadau o warchod a grŵp hynod agored i niwed yng nghanllawiau'r llywodraeth

Arferion gweithredol penodol

Hyfforddiant a Chyfarwyddyd

13. Yn dibynnu ar y math o waith a wneir, bydd angen i Gyfarpar Diogelu Personol fodloni safon achrededig a gall fod angen cyfarwyddyd neu hyfforddiant ychwanegol i fod yn effeithiol.

Asesu risg a brysbennu

14. Mae canllawiau Atal a Rheoli Heintiau yn amlygu'r angen am ddull o roi asesiadau risg ar waith ar gyfer lleoliadau lle mae gofal uniongyrchol yn cael ei ddarparu. Mae'r Nodyn Cyngor Atodol a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 20 Ebrill 2020 yn datgan y "bydd angen i leoliadau cymunedol eraill ryngweithio â chleientiaid/defnyddwyr gwasanaethau ac er mwyn diogelu eu staff, cynghorir pob sefydliad i gynnal a dogfennu asesiadau risg ar lefel unigol a sefydliadol priodol mewn perthynas â gweithredu'r canllawiau wedi'u diweddarau".
15. Bydd pob Asiantaeth Gofal a Thrwsio yn cynnal ac yn dogfennu asesiadau risg unigol (brysbennu) drwy alw cleientiaid cyn pob ymweliad i drafod p'un a oes symptomau neu symptomau posibl yn bresennol. Bydd cynlluniau parhad busnes/asesiadau risg y sefydliad hefyd yn cael eu cynnal gan bob Asiantaeth Gofal a Thrwsio, a bydd y Canllawiau Gofal a Thrwsio cenedlaethol hyn yn rhan o'r asesiad risg a'r cynllun parhad.

Cadw Pellter Cymdeithasol

16. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a chanllawiau'r GIG yn nodi'n glir mai cadw pellter cymdeithasol yw'r gofyniad allweddol i leihau lledaeniad heintiau. Bydd hyn yn cael ei roi ar waith yng nghartrefi ein cleientiaid ym mhob achos.
17. Lle bynnag y gallwn reoli'r amgylchedd drwy gadw o leiaf ddwy fetr o bellter, dylem wneud hynny, gan sicrhau bod yr angen am hyn yn cael ei egluro'n llawn i gleientiaid bob amser.
18. Lle mae cleient yn y categori hynod agored i niwed, a/neu'n gwarchod eu hunain; neu os ydyn nhw neu aelod o'u cartref yn dangos unrhyw symptomau, gofynnir i bob aelod o'r cartref leoli mewn rhan arall o'r tŷ i'r lle mae gwaith yn cael ei wneud gan ein tîm.

Hylendid, dihieintydd dwylo ac arferion glanhau

19. Defnyddiwch weithdrefnau hylendid da cyn ac ar ôl cael tynnu'r Gyfarpar Diogelu Personol trwy olchi dwylo gyda sebon a dŵr am o leiaf 20 eiliad. Os nad oes sebon a dŵr ar gael, defnyddiwch ddiheintydd llaw ag alcohol ynddo.
20. Dylid clymu gwallt yn ôl i ffwrdd o'r wyneb i leihau'r perygl o gyffwrdd â'r wyneb.

Glanweithdra ardal gwaith cyffredinol

21. Sychwch a glanhewch y man gwaith cyffredinol ar ôl cyrraedd ac ar ôl gadael eiddo'r cleient gyda glanedydd a dŵr poeth, neu hancesi diheintio priodol.

Cerbydau, offer a chyfarpar

22. Dylid dilyn y rheolau bioddiogelwch canlynol:

- a. Peidiwch â mynd ag unrhyw eitemau diangen i gartref y cleient - e.e. gwaith papur, bagiau gwaith, ac offer nad ydynt yn cael eu defnyddio.
- b. Dylech ddiheintio offer a chyfarpar ar ôl pob defnydd mewnol, naill ai gan ddefnyddio glanedydd a dŵr, neu hancesi diheintio.
- c. Sychwch y manau cyswllt allweddol mewn cerbydau yn rheolaidd gyda glanedydd a dŵr, neu hancesi diheintio pan nad oes ar gael. Mae'r pwyntiau cyswllt allweddol yn cynnwys dolenni drysau, ac olwynion llywio.
- d. Cyfarpar Diogelu Personol y gellir ei aildefnyddio e.e. fisorau neu gogls i'w gosod y tu mewn i fag bach, a'u golchi cyn gynted â phosibl gyda glanedydd a dŵr cynnes, eu trochi mewn dŵr, rhwbio yn ysgafn, rinsio mewn dŵr rhedeg, cyn eu sychu.
- e. Glanhewch yr holl ddyfeisiau symudol yn rheolaidd

Gwaredu Cyfarpar Diogelu Personol yn ddiogel

23. Unwaith y byddant yn cael eu defnyddio, dylai eitemau Cyfarpar Diogelu Personol tafladwy gael eu bagio'n ddwbl, eu labelu gyda'r dyddiad a'r amser, eu symud o'r safle, a'u gwaredu'n ofalus gan Gofal a Thrwsio. Mae gwaredu mewn casgliad cyffredinol ar ôl o leiaf 72 awr wedi bagio'r eitem olaf o Gyfarpar Diogelu Personol yn dderbyniol.

Dyddiadau allweddol

24. Dogfen fyw, weithio yw hon. Bydd Care & Repair Cymru yn parhau i adolygu unrhyw ddiweddariadau mewn canllawiau Cyfarpar Diogelu Personol gan LIC, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG i sicrhau bod y canllawiau hyn mor benodol a chadarn â phosibl.

- Dyddiad cyflwyno: 1 Mehefin 2020
- Dyddiad yr adolygiad : 3 Gorffennaf 2020
- Dyddiad yr adolygiad nesaf: Awst 2020

Canllawiau Gofal a Thrwsio ychwanegol

25. Ategir y canllawiau hyn gan y dogfennau Gofal a Thrwsio canlynol:

- ▶ **Canllawiau cleientiaid Gofal a Thrwsio ar gyfer gweithwyr yn eu cartrefi - www.careandrepair.org.uk/files/8915/9413/7111/Client_guide_for_workers_in_their_homes_July_2020.pdf**

- ▶ **Canllawiau i gontractwyr ar gyfer gweithio yng nghartrefi cleientiaid Gofal a Thrsio -**
www.careandrepair.org.uk/files/3015/9413/8528/Contractor_guide_for_safe_working_in_client_homes_July_2020.pdf
- ▶ **Canllawiau i Weithwyr Achos a Swyddogion Technegol ar ymweld â chartrefi cleientiaid a lleoliadau cymunedol**